# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 3

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol*

### 48 Dyletswydd i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir a enwir

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi ei henwi mewn cynllun datblygu unigol a lunnir neu a gynhelir ar gyfer plentyn gan awdurdod lleol at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol dderbyn y plentyn.

(3) Cyn enwi ysgol o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori—

(a) â chorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) yn achos ysgol a gynhelir pan nad yr awdurdod lleol na'i chorff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r ysgol.

(4) Ni chaiff awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn ond—

(a) os yw'r awdurdod wedi ei fodloni ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn ei gynllun gael ei gwneud yn yr ysgol, a

(b) os yw'n briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol.

(5) Mae is-adran (2) yn cael effaith er gwaethaf unrhyw ddyletswydd a osodir ar gorff llywodraethu ysgol gan adran 1(6) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) (terfynau ar faint dosbarthiadau babanod).

(6) Nid yw is-adran (2) yn effeithio ar unrhyw bŵer i wahardd disgybl o ysgol.

(7) Yn yr adran hon, mae i "awdurdod derbyn" yr ystyr a roddir i "admissions authority" gan adran 88 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.